

Annwyl Gyd-weithiwr,

Mae cyfnod Profion Cenedlaethol 2018-19 ar ein gwarthaf, a'r tro cyntaf i Ddarllen ac Ymresymu Rhifyddol yn unig fod ar fformat papur ac Asesiadau Personol fod mewn lle ar gyfer Rhifedd Gweithdrefnol. Ysgrifennaf atoch felly i rannu'r holl fanylion angenrheidiol â chi.

**Profion papur:** dyma'r cyfnod profi ar gyfer 2019

**Ysgolion cynradd:** 7-14 Mai 2019;

**Ysgolion uwchradd :** 29 Ebrill-14 Mai 2019.

**Asesiadau Personol (AP) :** gall ysgolion gynnal yr AP Rhifedd Cenedlaethol (Gweithdrefnol) unrhyw bryd yn ystod y flwyddyn yr ystyrir ei fod fwyaf manteisiol o ran llywio'r dysgu a'r addysgu. Gofynnir i ddysgwyr wneud yr asesiad **unwaith** yn ystod blwyddyn ysgol 2018-19. Gall ysgolion ddewis defnyddio'r asesiad **un waith eto** yn ystod y flwyddyn ysgol (tudalen 19 *Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol – Llawlyfr gweinyddu profion 2018-19* )

Bydd y wefan asesiadau ar gael o wythnos gyntaf mis Rhagfyr 2018. Gall aelodau staff a dysgwyr gael mynediad i'r wefan drwy Hwb, Platfform Dysgu ar-lein LIC, a hynny drwy ddefnyddio eu manylion mewngofnodi Hwb.

Hoffwn dynnu eich sylw at **Lawlyfr Gweinyddu Profion 2019** a gyhoeddwyd ar wefan Dysgu Cymru fis Tachwedd. Dyma'r linc i chi:

<http://learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/181019-test-admin-handbook-2018-cy.pdf>

Mae'r ddogfen hon yn cynnwys yr holl wybodaeth bwysig fydd ei hangen arnoch i weinyddu'r profion a'r Asesiadau Personol. Hoffwn ategu barn LIC, fel yr amlinellir ar dudalen 2 yr arweiniad,

*'Mae'r Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol ('y Profion Cenedlaethol') at ddefnydd ffurfiannol er mwyn i athrawon ym mhob ysgol a gynhelir gael gwybodaeth am sgiliau darllen a rhifedd eu dysgwyr a dealltwriaeth gyffredin o gryfderau a meysydd i'w gwella yn y sgiliau hyn. Mae'r Profion Cenedlaethol yn canolbwyntio ar ddeall cynnydd dysgwyr, yn hytrach na pherfformiad neu atebolrwydd yr ysgol'*

Er mwyn cyflawni hyn, mae'n bwysig iawn nad yw dysgwyr yn cael eu drilio ymlaen llaw. Byddwn yn eich hannog yn gryf i beidio defnyddio amser addysgu i adolygu ar gyfer y profion na gosod cyn-bapurau fel gwaith cartref. Nid yn unig y mae hyn yn achosi straen diangen i ddisgyblion, ond gall hefyd guddio anawsterau y gallai rhai dysgwyr fod yn eu hwynebu.

### **Dyddiadau allweddol ar gyfer 2018-19**

<http://learning.gov.wales/resources/collections/national-reading-and-numeracy-tests?lang=cy>

### **Profion yn cael eu hanfon i ysgolion**

*Ysgolion cynradd: wythnos yn dechrau 29 Ebrill 2019*

*Ysgolion uwchradd: wythnos yn dechrau 8 Ebrill 2019*

**Rhaid anfon amserlenni profion i profion@gwegogledd.cymru erbyn 12 Ebrill 2019.** Cwblhewch y pro fforma sydd ynghlwm wrth y llythyr hwn. Os bydd rhaid i chi newid yr amserlen ar unrhyw bryd, rhaid i chi roi gwybod i ni ar yr un cyfeiriad e-bost, yn ogystal â hysbysu rhieni.

### **Ysgolion yn gweinyddu'r profion**

*Ysgolion cynradd: 7-14 Mai 2019*

*Ysgolion uwchradd: 29 Ebrill-14 Mai 2019*

**Noder y newidiadau hyn:** Gall ysgolion canol a lleoliadau eraill sydd â dysgwyr ym Mlynnyddoedd 2-9 weinyddu'r Profion Rhifedd Cenedlaethol (Ymresymu) Blwyddyn 7-9 a Phroffion Darllen Cenedlaethol Blwyddyn 7-9 **o 29 Ebrill 2019.**

### **Dyddiad olaf ar gyfer llwytho Data**

*Fel y pennir gan yr awdurdod lleol*



## Canlyniadau/adborth i ysgolion

Profion papur: cyn diwedd tymor yr haf

Asesiadau Personol: bydd adborth ar unigolion ar gael ar y wefan asesu ddiwrnod ar ôl cwblhau'r asesiad.

Dylid sefyll prawf unigol - e.e. Prawf Darllen B2/3 a B4/5 - ar yr un diwrnod.

## Cymorth

Gall ysgolion gysylltu â'r Llinell Gymorth Archebu Profion ar 029 2026 5327 neu [aplc@profioncenedlaethol.cymru](mailto:aplc@profioncenedlaethol.cymru) os oes ganddynt unrhyw gwestiwn am yr wybodaeth sydd yn y llawlyfr hwn.

## Sesiynau Cefnogi Marcio

Bydd NFER yn trefnu ac yn cyflwyno sesiynau cefnogi marcio ar gyfer y prawf Ymresymu Rhifyddol ysgolion Uwchradd, a bydd NFER yn cysylltu ag ysgolion yn uniongyrchol gyda manylion am sut i gofrestru. **Cynhelir sesiynau i ysgolion cynradd yn lleol o brynhawn 14 Mai 2019** (manylion i ddilyn ar e-bost, G6 a Bwletin GwE).

## Datgymhwysio

Ar gyfer lleiafrif bach o ddisgyblion mewn ysgolion prif lif yn unig fydd hyn yn berthnasol, a hynny ar gyfer y profion papur yn benodol. Ystyriwch yn ofalus yr ystod o drefniadau mynediad a awgrymir yn Atodiad 5, tudalen 44 y 'Llawlyfr Gweinyddu Profion'. Os ydych yn penderfynu mai datgymhwysio yw'r **unig** opsiwn ar gyfer disgybl unigol, anfonwch e-bost i [profion@gwegogledd.cymru](mailto:profion@gwegogledd.cymru) i ofyn am ragor o arweiniad. DS - rhaid ceisio cadarnhad wedi'i lofnodi erbyn **22 Mawrth 2019**.

## Monitro

Byddwn yn ymweld â sampl o ysgolion cyn ac yn ystod cyfnod gweinyddu'r profion papur i fonitro a yw ysgolion yn cydymffurfio â'r arweiniad. Mae Llywodraeth Cymru yn gofyn bod Awdurdodau Lleol yn monitro gweinyddu'r profion mewn ysgolion fel rhan o'u cyfrifoldebau ehangach o ran asesu, a gofynnwyd i GwE ymgymryd â'r rôl hon ar ei rhan. Isod, (er gwybodaeth yn unig) gweler y meini prawf fydd yr unigolion hynny sy'n ymwneud â'r dasg hon yn eu defnyddio.

Mae hyn hefyd yn cynnwys monitro'r Asesiadau Personol fydd yn digwydd o fis Ionawr 2019 ymlaen. Gweler isod:



*"Gall y gwaith o fonitro sut mae ysgolion yn gweithredu'r asesiadau personol ddigwydd ar unrhyw adeg.*

*Bydd ymweliadau monitro yn canolbwyntio ar hyrwyddo arfer da wrth ddefnyddio'r asesiadau, ac ar y ffordd y mae'r wybodaeth am sgiliau dysgwyr a ddarparwyd gan yr asesiadau wedi cael ei defnyddio i gynllunio gweithgarwch dysgu ac addysgu."*

*(tudalen 24 Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol – Llawlyfr gweinyddu profion 2018-19)*

Gwn y gallaf, fel bob amser, fod yn sicr o'ch cefnogaeth a'ch cydweithrediad os caiff eich hysgol ei dewis ar gyfer ymweliad yn ystod y cyfnod hwn.

### **Datganiad y Pennaeth ar gyfer Profion Papur**

O fewn saith niwrnod ysgol o'r dyddiad terfynol ar gyfer cyflwyno data, rhaid i'r Pennaeth lofnodi datganiad a'i gyflwyno i'r consortiwm rhanbarthol yn cadarnhau bod y pecynnau prawf wedi cyrraedd ac wedi'u storio yn ddiogel, bod y profion wedi'u gweinyddu yn briodol yn unol â'r gofynion a amlinellir yn y llawlyfr gweinyddu PC (y llawlyfr hwn) a bod y profion wedi'u marcio yn unol â'r cynllun marcio. Mae ffurflen ddatganiad ar gael ar:

[www.learning.gov.wales/resources/browse-all/headteachers-declaration/?jsessionid=BB6EC113E2951A3BF62C81D2C292FBBC?skip=1&lang=cy](http://www.learning.gov.wales/resources/browse-all/headteachers-declaration/?jsessionid=BB6EC113E2951A3BF62C81D2C292FBBC?skip=1&lang=cy)

Cofion cynnes

Arwyn Thomas

**Rheolwr Gyfarwyddwr, GwE Gogledd Cymru**

## Meini prawf ar gyfer ymweliadau monitro 2019

### ***Ymweliad cyn y profion***

A yw'r pecynnau profion wedi'u gwirio yn erbyn y nodyn danfon?
A yw'r aelod staff fydd yn gyfrifol am weinyddu'r prawf ymresymu rhifyddol ym mhob dosbarth/grŵp blwyddyn wedi derbyn y ddisg a sgript yr athro?
A yw'r bocsus profion wedi'u hailselio?
A gedwir y bocsus mewn man diogel lle na chaiff unrhyw ddysgwr fynediad at gynnwys y profion na'u gweld?
A yw'r ysgol wedi gwirio bod y ddisg ar gyfer gweinyddu'r prawf ymresymu rhifyddol yn gweithio'n iawn?

### ***Ymweliad yn ystod y cyfnod profi***

A all dysgwyr weithio'n unigol a heb unrhyw beth yn tarfu arnynt?
A yw dysgwyr yn gallu gweld unrhyw ddeunyddiau a allai roi mantais annheg iddynt o ran cynnwys y prawf e.e. arddangosfeydd neu adnoddau dosbarth cyffelyb, ffonau symudol?
A atgoffir dysgwyr y dylai'r gwaith a gynhyrchir ganddynt yn y profion fod eu gwaith eu hunain, ac na ddylent drafod cwestiynau na chopio atebion?
A roddir amser digonol i ddysgwyr gwblhau'r prawf, yn unol â'r amseroedd a nodir yn y llawlyfrau profion?
A atgoffir dysgwyr na ddylent drafod cynnwys y profion na'r atebion y tu allan i'w grŵp cyfoedion?
A oes goruchwyliaeth briodol gydol yr amser, sy'n cyd-fynd â nifer y disgyblion a oruchwylir?
A oes gan ddysgwyr y deunyddiau ar gyfer y profion a'r holl adnoddau angenrheidiol?
A weinyddir y prawf yn unol â'r arweiniad a roddir yn y llawlyfr a'r wybodaeth yn llawlyfrau'r profion?
A roddir unrhyw gefnogaeth, gwybodaeth neu gymorth ychwanegol i ddysgwyr gyda chynnwys y profion, heblaw am yr hyn sy'n unol â'r ddarpariaeth ar gyfer y Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol - arweiniad ar drefniadau mynediad a datgymhwyso?
A yw dysgwyr yn deall yr hyn sydd rhaid iddyn nhw wneud a'r amser a roddir ar gyfer cwblhau'r prawf?
A ganiateir i ddysgwyr ddychwelyd at a/neu ddiwygio eu hatebion i'r profion ar ôl i'r amser a ganiateir ddod i ben?
Os oes disgyblion wedi'u datgymhwyso o'r prawf, a gafwyd cymeradwyaeth ysgrifenedig?



Gwasanaeth Effeithiolrwydd a  
Gwellu Ysgolion Rhanbarthol Gogledd Cymru  
Regional School Effectiveness &  
Improvement Service for North Wales

